



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI

Dyddiad ac Amser

6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG MAWRTH, 2020

Lleoliad

**Ystafell Bwyllgor, Swyddfa'r Cyngor,
Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA**

Pwynt Cyswllt

Lowri Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 11 Mawrth 2020)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Dylan Bullard
Peter Read
Hefin Underwood

Aelod Lleol
Abererch Local Member
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Ifor Hughes

Stephen Tudor
Michael Sol Owen
David Dewsbury

Wil Partington

Andrew Picken
Cyngorydd Mici Plwm
Alwyn Roberts

Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r
Cylch

Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli

Cynrychioli Plas Heli

Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan
Pwllheli

Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr
Morwrol Pwllheli

Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli

Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli

Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli

Sylwedyddion:

David Williams
Cyngorydd Rob Triggs
Dr John Jones-Morris
Gareth Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Cabinet Member of Economic Development

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 Hydref 2019 fel rhai cywir

5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

8 - 35

Cyflwyno adroddiad Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

6. DIWEDDARIAD CARTHU

36

I ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Hydref 2020

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 15/10/19

Presennol: Y Cyngorydd Hefin Underwood (Cadeirydd)

W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol) Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli) Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli) Cyngorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a'r Cyngorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi).

Hefyd yn bresennol: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Hefin Underwood yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Peter Read yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Peter Read ynghyd â David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli) ac Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub)

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATER BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2019, fel rhai cywir.

Gwnaed cais i ganlyniadau'r adolygiad hydrograffeg a gynhaliwyd Mawrth 2019 gael ei rannu gyda'r aelodau.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Rheolwr Harbwr yn rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod Mawrth 2019 – Hydref 2019. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod archwiliad manwl o gymhorthion mordwyo Pwllheli gan arolygwyr Awdurdod Goleudy Tŷ'r Drindod yn cael ei gynnal Hydref 2019 – nid oedd y swyddogion yn rhagweld problemau

- Bod datblygiadau megis gorsaf dywydd newydd, gwe gamerâu ac uwchraddio band eang yn gwella mynediad at wybodaeth amserol i gwsmeriaid
- Bod y cwmnïau Parcio a Lansio yn lansio nifer o gychod heb iddynt fod yn arddangos sticeri cofrestru PW a PC priodol. **Cynigiwyd i gynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol drafod gyda'r cwmnïau a'u hannog i gofrestru**
- Bod cwsmeriaid yr Hafan a'r Harbwr wedi croesawu'r cyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer tanwydd disel coch. Er hynny, yn dilyn ymgynghoriad a gweithrediad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar danwydd disel a ddefnyddir mewn cychod pleser preifat a'r penderfyniad na all y DU gyflenwi Disel Coch, bydd bosib angen i'r Hafan gyflawni cyflenwad disel gwyn yn unig at y dyfodol. Pe bydd unrhyw newid yn digwydd yna fe fydd y swyddogion yn hysbysebu defnyddwyr ar unwaith.
- Bod gwaith cynnal a chadw Cei'r Gogledd wedi mynd yn anoddach dros y blynyddoedd diwethaf gyda diffyg adnoddau, arian a staff i wneud y gwaith angenrheidiol. **Erfyniwyd ar swyddogion i roi sylw priodol i'r ardal a chynnal trafodaethau gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â rhannu cyfrifoldebau am y gwaith cynnal a chadw**
- Cyfeiriwyd at grynodedd bras o gyllidebau'r Harbwr a'r Hafan a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Medi 2019.
- Argymell codi 2% ar ffioedd Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn 2020. **Derbyniwyd yr argymhelliad.**
- Argymell codi ffioedd lansio dyddiol o £10 i £15. Amlygwyd nad oedd y ffioedd lansio wedi cynyddu ers dros 18 mlynedd ac y byddai'r cynnydd yma yn hwb i godi incwm. Ategwyd na fyddai unrhyw addasiad i'r ffioedd eraill. **Derbyniwyd yr argymhelliad gyda chais i'r swyddogion annog defnyddwyr i gofrestru a defnyddio'r gwasanaeth**
- Nifer cychod sydd yn cael eu storio ar y lan ers rhai blynyddoedd yn ychwanegu at y broblem o storio cychod. **Awgrymwyd adolygu'r sefyllfa gan ystyried codi rhent yn ddibynnol ar y cyfnod 'aros ar y lan'**
- Bod system gyfrifo'r Hafan bellach wedi ei ganoli yn adran Incwm Cyngor Gwynedd Caernarfon. O ganlyniad, adroddwyd bod modd diddymu'r tal ychwanegol o 5% am gost angorfa flynyddol yn yr Hafan drwy daliadau ddebyd uniongyrchol
- Bod gwaith ar orsaf cychod newydd yr RNLi bellach wedi dechrau. Adroddwyd mai Wynne Construction sydd yn gyfrifol am y datblygiad. Ategwyd y byddai hwn yn atyniad newydd a chyffrous i'r ardal.
- Digwyddiad y British Dragon Association ynghyd a'r Jester Challenge wedi bod yn llwyddiannus.
- Cafwyd diweddariad ar ddigwyddiadau Plas Heli lle adroddwyd bod 1060 o gystadleuwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau, 8 prif gystadleuaeth wedi ei cynnal, 31 aelod ifanc yn aelodau o'r Gymdeithas Hwyllo (4 o'r rhain yn cynrychioli Cymru). Cynhaliwyd 8 priodas ac 18 angladd / te angladd; rhwng 3 a 5 cyfarfod yn cael ei gynnal yn wythnosol gan wahanol gymdeithasau; 27 aelod o staff yn gweithio yno ar amseroedd prysur. Cytunwyd bod Plas Heli yn sicr yn hwb i'r economi leol. Nododd cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli bod gwaith tirlunio ym maes parcio'r lan môr a'r cei ynghyd â gwella'r draeniad wedi ei gwblhau ac y byddai 3 polyn fflag yn cael ei symud i fynedfa Plas Heli i wella'r lliw. **Awgrymwyd bod angen mwy o arwyddion i gyfeirio ymwelwyr / trigolion at y caffi.**

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

8. DIWEDDARIAD AR FATERION COD DIOGELWCH A CHARTHU

- Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd
Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgorau Ymgynghorol bod eitem ar y Cod Diogelwch yn destun eitem agenda pob cyfarfod o'r Pwyllgorau Ymgynghorol cyflwynwyd

diweddariad ar y materion cod diogelwch. Eglurwyd bod y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl systemau diogelwch yr harbyrau yn cydfynd a gofynion y cod, disgwyliadau cwsmeriaid a chydymffurfio a gofynion lechyd a Diogelwch.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Prif Archwiliwr Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau wedi cynnal adolygiad dilynol o drefniadau a systemau diogelwch harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn Mawrth 2019. Cafwyd cadarnhad bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r disgwyliadau. Amlygwyd nad oedd unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr, hyd yma yn 2019.

- **Carthu**

Yn dilyn gwahoddiad am dendrau ar 'Gwerthwch i Gymru', adroddwyd bod y gwaith o adnewyddu Grwyn y Crud wedi ei gynnig i gwmni Jennings am oddeutu £225,000. Nodwyd, er cwblhau'r gwaith rhagaratoi angenrheidiol ar gyfer cyflwyno cais am drwydded forol i Gyfoeth Naturiol Cymru, nid oedd y drwydded wedi ei derbyn (er bod drafft o'r cadarnhad wedi ei dderbyn). Atgoffwyd yr Aelodau ei fod yn hanfodol derbyn Trwydded Forol oherwydd bod ôl troed y grwyn yn ymestyn ymhellach na'i ôl troed presennol. Nodwyd nad oedd bwriad ymestyn y trwyn (byddai hyn yn golygu costau ychwanegol a chyfyngiad amser o hyd at 10 mlynedd). Ategwyd bod y cynllun yn ddyluniad da a'r newyddion yn galonogol. Bydd y grwyn gwreiddiol yn cael ei chwalu a'r grwyn newydd yn cael ei hadeiladu o garreg.

Mewn ymateb i'r cynllun datganwyd siom nad oedd modd strwythuro ac ehangu trwyn y grwyn fel datrysiad delfrydol ac yn unol â'r wir angen. Er yn derbyn bod angen dechrau ar y gwaith, awgrymwyd hefyd ceisio cynllunio ymlaen ar gyfer datrysiad tymor hir. **Cynigiwyd cysylltu gyda'r Aelod Cynulliad Dafydd Elis Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (etholaeth Dwyfor a Meirionnydd) i dynnu sylw at reolau caeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd a rhwystrau mewn deddfau a pholisïau amgylcheddol ar gyfer adeiladu grwyn effeithiol. Ategwyd bod yr Harbwr yn adnodd gwerthfawr i ddenu twristiaid i'r ardal ac o fudd economaidd i'r Sir.**

- **Lagŵn Distyllu**

Amlygwyd bod oddeutu 18,000 ciwb o waddod wedi ei garthu o fasn y sianel ar harbwr a bod angen ystyried dulliau amgen o'i waredu cyn dechrau'r ymgrych nesaf.

- **Gwaith Carthu**

Bod cwmni 'Royal Smals' wedi cwblhau'r gwaith carthu yn y sianel fordwyo ac ym masn yr Hafan/Plas Heli. Adroddwyd mai £140,000 oedd pris y gwaith - y cwmni wedi gweithio mewn dull effeithiol a didrafferth heb amharu ar waith yr harbwr mewn unrhyw ffordd.

- **Tomen Dywod**

Adroddwyd bod y domen dywod ger ceg yr Harbwr bron yn llawn ac nad oedd modd ymgymryd ag unrhyw waith carthu sylweddol ychwanegol hyd fod y tywod a gro wedi ei waredu o'r safle. Nodwyd bod y Cyngor yn y broses o hysbysebu cyfleoeddi gwmnïau brynu'r tywod drwy 'Gwerthwch i Gymru'. Nodwyd hefyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ail leoli'r tywod ar draethau cyfagos Abererch a Thraeth Cruggan. Ategwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai'n gorfod symud y tywod pe bae'r penderfyniad i wneud hynny.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiadau.

9. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Derbyniwyd diweddariad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ar adolygiad model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan. Nodwyd, er bod yr amserlen wedi llithro rhyw faint, bod Strategic Leisure bellach wedi cwblhau'r adolygiad a bod y prif argymhellion wedi eu derbyn. Adroddwyd bod yr argymhellion hynny yn cael eu trafod gydag Adrannau Cyfreithiol ac Eiddo'r Cyngor. Y cam nesaf fydd trefnu cyfarfodydd gyda'r sefydliadau hynny sydd wedi cyfrannu i'r adolygiad er mwyn trafod y prif gasgliadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ymgynghorol er mwyn cael cyflwyniad o'r prif gasgliadau.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a gwneud cais i'r Adran drefnu cyfarfod gydag Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol i dderbyn prif gasgliadau'r adolygiad

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth, 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.45pm

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	17 Mawrth 2020
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Rheolwr Harbwr Pwllheli

1. Eitemau Gweithredol

- 1.1 Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle.
- 1.2 Bydd Bwi "Fairway" Pwllheli yn cael ei newid am y Bwi "Fairway" haf yn ystod y mis nesaf; mae diametr y bwi haf yn fwy na'r bwi gaeaf. Yn ystod misoedd yr haf, caiff y bwi gaeaf wasanaeth er mwyn ei aildefnyddio ym mis Hydref.
- 1.3 Mae un "Rhybudd i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd. Mae'r Rhybudd yn gysylltiedig a gwaith adfer Grwyn y Crud. Nid yw y Cymhorthydd Mordwyo Grwyn y Crud ar ei safle tra bod y gwaith yn mynd ymlaen.
- 1.4 Storm "Ciara" a storm "Denis"- Ym mis Chwefror, cafwyd dwy storm eithaf grymus yn yr harbwr o fewn wythnos i'w gilydd. Rydym yn amcangyfrif bod y gwynt wedi hyrddio hyd at 80 mya drwy'r harbwr, a hynny ar ben y llanw mawr yn ystod Storm Ciara. Er na chafwyd unrhyw ddifrod mawr, roedd yn fodd o'n hatgoffa o rym natur.
- 1.5 Cei Tanwydd - Uned Hunan-wasanaeth / Disel Coch / - ni fu unrhyw ddatganiad gan HMRC am werthiant disel coch i "gychod plaser" ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr ym mis Hydref 2019. Ym mis Tachwedd 2019, cafwyd cyhoeddiad gan Iwerddon mai dim ond disel gwyn fyddai'n cael ei werthu yno i gychod plaser. O 1 Ebrill ymlaen bydd y Cyngor yn parhau i werthu disel coch i gychod plaser os na fydd unrhyw gyhoeddiad yn ymwneud â chychod plaser yn y cyfamser. Er mwyn symleiddio'r broses ymhellach, o 1 Ebrill bydd yr holl werthiant disel o'r cei tanwydd yn cael ei weinyddu drwy'r pwmp hunan-wasanaeth gyda'r rhaniad 60/40 arferol. O ganlyniad i'r pwmp hunan-wasanaeth newydd, prin iawn yw'r defnydd o'r peiriant talu â cherdyn yn y ciosg, a chaiff ei dynnu oddi yno erbyn 1 Ebrill 2020. Bydd y nifer fechan iawn o gwsmeriaid oedd â hawl i gyfrif tanwydd yn y gorffennol, bellach yn gorfod defnyddio cerdyn credyd/debyd i brynu tanwydd.

2.0 Cynnal a chadw

- 2.1 Cei'r Gogledd – Yn ystod Storm Ciara, cafwyd y gysgodfan gyferbyn ag stâd Ddiwydiannol Glan Don ei chwythu i lawr. Symudwyd y gysgodfan o fewn tridiau ac mae'r safle bellach wedi ei diogelu.
- 2.2. Cyfleusterau toiledau a chawodydd merched - gwnaed nifer o welliannau yn ystod mis Ionawr. Symudwyd drysau'r toiledau fel eu bod yn agor am allan, gosodwyd drychau ychwanegol, drysau newydd i'r cawodydd, bachau ychwanegol a chyfarpar i ddal poteli sebon a siampŵ.

- 2.3 Cyfleusterau toiledau a chawodydd dynion - gwnaed newidiadau i ddrysau mewnol y cawodydd; maent bellach yn agor am allan sy'n awyru'r ciwbicl yn well pan nad yw'r gawod yn cael ei ddefnyddio.
- 2.4 Drws awtomatig i gyfleusterau Toiledau/Cawodydd Deiliaid Angorfeydd - Gosodwyd drws ffrynt awtomatig newydd ym mis Ionawr i'r cyfleusterau toiledau a chawodydd, yn debyg i'r un wrth y fynedfa i lobi'r marina. Bydd y drws newydd yn lleihau drafftiau ac yn cynnal y tymheredd yn well. Mae deiliaid angorfeydd eisoes wedi sôn ei bod llawer cynhesach yn yr ardal hon.
- 2.5 Yn ystod y cyfnod cynnal a chadw dros y gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer:
- Drws awtomatig i gyfleusterau'r toiledau/cawodydd
 - Ram/peipiau i'r hoist symudol
 - Rheiddiadur hoist symudol
 - Ailwynebu a chlirio compownd rhif 3.

3.0 Materion Staffio

- 3.1 Mae un swydd wag ar hyn o bryd ym Mhwlheli, ac rydym yn gobeithio llenwi'r swydd yn ystod yr wythnosau nesaf.
- 3.2 Byddwn hefyd yn ceisio cyflogi Cymhorthydd(ion) Harbwr Cyffredinol ar gyfer tymor yr haf 2020.

4.0 Materion Ariannol

- 4.1 Darparwyd adroddiad ariannol hyd at ddiwedd mis Chwefror 2020 yn Atodiad 1.

5.0 Ffioedd a Thaliadau 2020/21

- 5.1 Bydd y trefniadau i gwsmeriaid sy'n dewis talu am angorfa blynyddol drwy Ddebyd Uniongyrchol yn cael eu cysoni â'r trefniadau ar gyfer yr Harbwr Allanol yn 2020, lle na chodir ffi o 5% ychwanegol ar gwsmeriaid am ddefnyddio'r cyfleuster hwn. Ymddengys bod mwy o bobl bellach yn dewis talu drwy'r dull hwn.
- 5.2 Mae ffioedd yr Harbwr a'r Hafan wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn.

6.0 Ystadegau Harbwr/Hafan Blynyddol ac ati

- 6.1 Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2019/20 wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

- 6.2 Adnewyddu angorfeydd – mae'r contractau blynyddol sy'n cael eu dychwelyd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020 yn gyson â 2019; bydd gennym well syniad o'r cyfanswm terfynol erbyn diwedd mis Ebrill.
- 6.3 Hoist/Storfa gychod ar y tir – Mae'r defnydd o hoist cychod yr Hafan yn gyson, ond fel adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Harbwr, mae'r gofod ar gyfer storio cychod ar y tir bellach yn llawn. Bydd yr ardal storio yn llawn tan ddiwedd fis Ebrill/dechrau Mai, pan fydd y cychod yn dychwelyd i'r dŵr.

7.0 **Materion Eraill**

- 7.1 Diffibriliwr – Mae cais wedi ei dderbyn ar gyfer gosod peiriant adfywio calonnau yn yr Hafan. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r syniad hwn, a byddwn yn cynnal trafodaethau yn fuan er mwyn trafod lleoliad addas.
- 7.2 Mannau gwefru cerbydau trydan - mae mwy o ddeiliaid angorfeydd bellach yn defnyddio cerbydau trydan i deithio i'r Hafan. Bydd y niferoedd yn sicr o gynyddu dros y pum mlynedd nesaf. Rydym wrthi'n ystyried lleoliadau addas yn safle'r Hafan i leoli manau gwefru yn y dyfodol.
- 7.3 Marchnata - dosberthir rhestr o weithgareddau marchnata dros y deuddeg mis diwethaf yn ystod y cyfarfod.
- 7.4 Uwchraddio'r band eang - Erbyn hyn, mae cysylltiad ffibr optig band eang newydd wedi'i osod yn adeilad yr Hafan. Dylai cwsmeriaid Hafan Pwllheli weld gwahaniaeth sylweddol yn y cyflymder uwchlwytho o'i gymharu â'r hen system.
- 7.5 Gorsaf dywydd newydd - Mae'r orsaf dywydd bellach yn gweithio, ac ar gael ar wefan Hafan Pwllheli i bawb sy'n dymuno gweld beth yw'r tywydd yn Harbwr Pwllheli.
- 7.6 Ar hyn o bryd, rydym yn gosod tri gwe gamera yn yr Hafan. Byddant yn cysylltu â gwefan yr Hafan a bydd hyn yn galluogi pobl i gael gweld delweddau byw o'r Hafan/Harbwr a'r fynedfa i'r Harbwr ar eu porwr.

Hafan

2016	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
up to 6m	8	2130.01	22	36.36%
up to 8m	3	2840.03	32	9.37%
7m to 10m	44	3549.18	158	27.84%
10m to 12m	38	4302.66	111	34.23%
12m to 13.5m	22	4840.49	60	36.66%
13.5m to 15m	7	5378.32	24	29%
over 15m	0	7170.82	2	0%
	122		409	29.82%

Harbwr

2016	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Area 1	0	63.55/85.89	1	0.00%
Area2	4	78.06/104.36	12	33.00%
Area 3	7	149.12/161.26	39	17.94%
Area 4	5	17.95/18.43	10	50.00%
Area 5	8	83.92/113.47	16	50.00%
Area 6	8	77.95/105.36	8	100.00%
Area 7	24	77.95/105.36	28	85.71%
	56		114	48.00%

Hafan

2017	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
up to 6m	3	1849.31	22	14.00%
up to 8m	1	2130.00	32	3.00%
7m to 10m	42	373.02	158	26.00%
10m to 12m	31	373.02	111	27.00%
12m to 13.5m	23	373.02	60	38.00%
13.5m to 15m	3	373.02	24	12%
over 15m	0	373.02	2	0%
	103		409	25.00%

Harbwr

2017	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Area 1	0	64.82/87.61	1	0.00%
Area2	5	79.62/106.45	12	41.00%
Area 3	10	152.11/164.48	39	25.00%
Area 4	0	18.00/18.80	10	0.00%
Area 5	4	81.88/148.02	16	25.00%
Area 7	7	79.51/107.47	8	87.00%
	26		86	30.00%

Hafan

2018	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
up to 6m	0	1886.29	22	0.00%
up to 8m	0	2172.60	32	0.00%
7m to 10m	53	380.48	158	33.54%
10m to 12m	32	380.48	111	28.82%
12m to 13.5m	26	380.48	60	43.33%
13.5m to 15m	6	380.48	24	25%
over 15m	2	380.48	2	100%
	119		409	32.96%

Harbwr

2018	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Area 1	0	66.12/89.36	1	0.00%
Area2	5	81.22/108.48	12	41.66%
Area 3	11	155.15/167.77	39	28.20%
Area 4	0	18.36/19.18	10	0.00%
Area 5	3	87.31	16	18.75%
	19		78	31.40%

Hafan

2019	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
up to 6m	1	1944.77	22	4.00%
up to 8m	5	2239.94	32	15.00%
7m to 10m	48	392.28	158	30.00%
10m to 12m	36	392.28	111	32.00%
12m to 13.5m	19	392.28	60	31.00%
13.5m to 15m	3	392.28	24	12%
over 15m	1	392.28	2	50%
	113		409	27.00%

Harbwr

2019	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Area 1	0	66.12/89.36	1	0.00%
Area2	4	81.22/108.48	12	33.00%
Area 3	10	155.15/167.77	39	25.00%
Area 4	0	18.36/19.18	10	0.00%
Area 5	3	87.31	16	18.00%
	17		78	21.00%

Morwrol a Pharciau							
DG51-HAFAN		Diwedd Chwefror-2020					
Penawd	CYFRIF	DISGRIFIAD	CYLLIDEB 2019-20	GWARIANT hyd at 29 Chwefror-2020	YMRWYMIAD gwariant I 29 Chwefror-2020	Cyfanswm gwariant 2019-20	GOR (TAN) 2019-20
Staff	AGWE	Costau Staff	306,260	271,881	22,642	294,523	(11,737)
Eiddo	BEID	Tiroedd ac Eiddo	445,010	542,361		542,361	97,351
Trafnidiaeth	CTRA	Cwch a Cherbydau	9,590	1,990		1,990	(7,600)
Offer a Chelfi	DCYF	Offer a Chelfi	101,250	85,027		85,027	(16,223)
Cefnogaeth Canolog	GCEF	Cefnogaeth Canolog	0	25		25	25
Incwm	INCM	Incwm Harbwr	(1,347,320)	(1,345,325)		(1,345,325)	1,995
Cyfanswm	CYF	Cyfanswm	(485,210)	(444,041)	22,642	(421,399)	63,811

Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2020/21

	£ inc. VAT	
Angorfa Pontŵn Blwyddyn fesul medr (lleiafswm 7m) Blynyddol mewn 1 taliad (heb drydan) neu yn Blynyddol mewn 10 rhandal (heb drydan) Trydan fesul medr Blynyddol mewn 1 taliad (gyda thrydan) neu yn Blynyddol mewn 10 rhandal (gyda thrydan) +10% i gychod masnachol di breswyl yng Ngwynedd	400.13 21.38 421.51	Annual pontoon berthing per m (min 7m) Paid in 1 instalment (without electricity) or Paid in 10 instalments (without electricity) Electricity per metre Paid in 1 instalment (including electricity) or Paid in 10 instalments (including electricity) +10% for commercial vessels-non-resident in Gwynedd
Safle Blynyddol Cwch Dydd (mwyafrif 8m) Fynnu hyd at 6m (Taliad sefydlog) D33 – D52 Fynnu hyd at 8m (Taliad sefydlog) D01 – D32	1983.66 2284.74	Annual Day boat (max 8m) Up to 6m (Fixed charge) D33 – D52 Up to 8m (Fixed charge) D01 – D32
Blynyddol Cwch Dydd mewn 10 rhandal Fynnu hyd at 6m (Taliad sefydlog) D33 – D52 Fynnu hyd at 8m (Taliad sefydlog) D01 – D32	1983.66 2284.74	Annual Day boat paid in 10 instalments Up to 6m (Fixed charge) D33 – D52 Up to 8m (Fixed charge) D01 – D32

Ffioedd - Hafan Pwllheli -Fees – 2020/21

	£ inc. VAT	
Ymwelwyr Amser byr (uchafswm 4 awr) tal sefydlog-pob cwch yn cynnwys cychod siarter Tros nos fesul medr - lleiafswm 7m Wythnosol fesul medr (lliafswm o 5 noson i derbyn)	14.63 2.69 16.58	Visitor Berthing Short stay-load/unload (max 4 hrs) fixed charge- all vessels including charter vessels Overnight per m - min 7m Weekly per m (min 5 nights stay to qualify)
Gaeaf fesul mis fesul medr yn unig (01 Hydref – 31 Mawrth)	23.49	Winter Per m per calendar month (01 October – 31 March only)
Fesul mis Dalwyr Angorfa Cyngor Gwynedd yn unig (01 Hydref – 31 Mawrth yn unig)	81.15	Per calendar month Gwynedd Council Mooring Holders only (01 October – 31 March only)
Trydan (pontŵn) Cynnal a chadw blynyddol ac unedau ar dal wedi eu hysbysebu	Cynwysedig Included	Electricity (pontoons) Annual maintenance charge plus units at advertised unit rate
Cwch yr Hafan Fesul awr Lleiafswm	47.31 47.31	Marina Launch Charge per hour Minimum charge

Tud. 17

	£ inc. VAT	
Peiriant codi cychod- fesul medr Codi Allan / Codi-Dal-Lansio i fyny i 7m 7.1m i 9m 9.1m i 10m 10.1m i 11m 11.1m i 12m 12.1m i 15m Dros 15m Lansio yn unig i fyny at 7m 7.1m at 9m 9.1m at 10m 10.1m at 11m 11.1m at 12m 12.1m i 15m Dros 15m Symud Cwch yn yr Iard fesul medr Scrwb amser cinio wedi ei disgowntio	 16.87 20.69 21.54 21.95 22.56 24.14 39.23 15.59 19.12 19.93 20.32 21.54 22.32 35.31 9.74 12.83	Travel Hoist – per metre Lift Out / Lift-Hold-Launch Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m Launch only Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m Yard Movement per m Discounted lunchtime scrub
Storio Storio ar y lan i berchennog doc fesul medr fesul dydd Storio ar y lan i ymwelwyr fesul medr fesul dydd	 .33 .48	Storage Annual contract holders per m per day Non-Annual contract holders per m per day
Storio crud/ôl cerbyd i ymwelwyr fesul dydd	1.75	Storage of cradles/trailers for non contract holders per day
Llogi crud Hafan fesul dydd	1.75	Hire of marina cradle/boat stands per day
Llafur ategu	45.78	Shoring labour charge

	£ inc. VAT	
Llithriad - Uchafrif 80 cwch fesul cwmni - Uchafrif 6 cwmni	3000.00 (-20%)	Slipway – Maximum 80 vessels per company - Maximum 6 companies
Trydan ar y lan Perchennog doc blynyddol Defnydd dyddiol (cynnwys TAW) Peiriant pŵer dros dro Unedau ar gost fel arddangos yn y dderbynfa	Cynwysedig/Included 3.70	Electricity onshore Annual contract holders Daily charge (inc VAT) Intermittent use for power tools Units used at unitary rates as displayed in reception.
Hwyllo Sych - Cwch Sbort 1tf o Fai - 30 o Dachwedd fesul lansio neu i godi'r cwch: 1720/707/J80 ayb Cwch "Dragon" fesul lansio neu codi	1136.27 76.75 102.00	Dry Sailing – Sports Boat 1 st May - 31 st October per launch or per lift sailing sports boat: 1720/707/J80/ etc "Dragon" per launch or per lift
Tir yr Hafan fesul m²	7.61	Land rental per m²
Wal y Marina tros nos fesul medr (cychod pysgota masnachol yn unig)	2.99	Marina wall berthing per m per night (commercial fishing vessels only)
Ffioedd glanio pysgod	2.99	Fish landing fees
Disel fesul lityr – cychod pleser	Pris ar y pwmp/pump price	Diesel per litre- leisure craft
Disel Coch fesul lityr	Pris ar y pwmp/pump price	Red Diesel per litre

Ffioedd - Harbwr Allanol Pwllheli Outer Harbour -Fees – 2020/21

Disgrifiad	Ffi leol Local Fee Inc 20% VAT	Eraill Other Inc 20% VAT	Description
Ffi angorfeydd fesul medr			Moorings per meter
Ardal 1 – Rhif Angorfa 01	67.44	91.15	Area 1 – Mooring Numbers 01
Ardal 2 – Rhif Angorfa 01- 13	82.84	110.75	Area 2 – Mooring Numbers 01- 13
Ardal 3- Rhif Angorfa 13 -34 (lleiaf hyd 7m)	158.25	171.13	Area 3 – Mooring Numbers 13- 34 (min 7m)
Ardal 3– Rhif Angorfa 13 – 34 (Pysgotwyr Llawn amser yn unig)	85.18	154.00	Area 3 - Mooring Numbers 13 -34 (Full time Fishermen only)
Ardal 4– Rhif Angorfa 01–10	18.72	19.55	Area 4 – Mooring Numbers 01–10
Ardal 5– Rhif Angorfa 01–09	89.06	120.42	Area 5 – Mooring Numbers 01–09
Wal yr Harbwr Llwytho/dadlwytho neu aros dros nos - fesul medr	2.78	2.78	Quay Wall Unloading/Loading or overnight stay - per metre
Compownd Diogel (llai 40% pysgotwyr Bona fida cofrestredig llawn amser yn unig-gwelir diffiniad)	889.55	898.48	Secure Compound (less 40% for registered Bona fida full time fishermen only-see definition)

Compound-discount applied to bona fida fishermen with annual mooring in Pwllheli. Compound License Holder must also be the skipper of the Fishing Vessel.

Ffioedd – Hafan Pwllheli – Fees 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21 £+2%	Prices exclude VAT
Angorfa Pontŵn Blwyddyn fesul medr (lleiafswm 7m) Blynyddol mewn 1 taliad (heb drydan) neu yn Blynyddol mewn 10 rhandal gyda “Taliad Uniongyrchol”(heb drydan) Trydan fesul medr Blynyddol mewn 1 tal (gyda thrydan) Blynyddol mewn 10 rhandal gyda “Taliad Uniongyrchol” (gyda thrydan) +10% i gychod masnachol di breswyl yng Ngwynedd	317.07 332.93 15.74 332.81 349.45	326.90 343.25 17.47 343.13 360.28	333.44 17.81 351.25	Annual pontoon berthing per m (min 7m) Paid in 1 instalment (without electricity) Or Paid in 10 “Direct Debit” instalments (without electricity) Electricity per metre Paid in 1 instalment (including electricity) Or Paid in 10 “Direct Debit ” instalments (including electricity) +10% for commercial vessels-non-resident in Gwynedd
Safle Blynyddol Cwch Dydd (mwyafrif 8m) Blynyddol mewn 1 tal Fynnu hyd at 6m D33 – D52 Fynnu hyd at 8m D01 – D32	1571.91 1810.50	1620.64 1866.62	1653.05 1903.95	Annual Day boat Paid in 1 instalment (max 8m) Up to 6m (Fixed charge) D33 – D52 Up to 8m (Fixed charge) D01 – D32
Blynyddol Cwch Dydd mewn 10 rhandal gyda “Taliad Uniongyrchol” fel yr uchod Fynnu hyd at 6m D33 – D52 Fynnu hyd at 8m D01 – D32	1650.50 1901.03	1701.66 1959.96		Annual Day boat paid in 10 instalments By “Direct Debit” as above Up to 6m D33 – D52 Up to 8m D01 – D32

Ffioedd – Hafan Pwllheli – Fees 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21	Prices exclude VAT
Angorfa Ymwelwyr Amser byr (uchafswm 4 awr) tal sefydlog-pob cwch cynnwys cychod siarter Tros nos fesul medr - lleiafswm 7m yn Wythnosol fesul medr (leiafswm o 5 noson i cymhwyso) Misol (1 Ebrill – 30 Medi) Misol (1 Hydref i 31 Mawrth)	11.60	11.95	12.18	Visitor Berthing Short stay-load/unload (max 4 hrs) fixed charge- all vessels inc Charter vessels. Overnight per m - min 7m Weekly per mt (min 5 nights stay to qualify)
18.62	19.19	19.57	19.57	
Fesul mis Dalwyr Angorfa Cyngor Gwynedd yn unig (01 Hydref – 31 Mawrth yn unig)	64.31	66.30	67.62	Per calendar month Gwynedd Council Mooring Holders only (01 October – 31 March only)

Ffioedd – Hafan Pwllheli – Fees 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21	Prices exclude VAT
Trydan (pontŵn) Cynnal a chadw blynyddol ac unedau ar dal wedi eu hysbysebu	Cynwysedig Included	Cynwysedig Included	Cynwysedig Included	Electricity (pontoons) Annual maintenance charge plus units at advertised unit rate
Cwch yr Hafan Fesul awr Lleiafswm	37.49 37.49	38.65 38.65	39.42 39.42	Marina Launch Charge per hour Minimum charge

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21	Prices exclude VAT
Peiriant codi cychod- fesul medr Codi Allan / Codi-Dal-Lansio i fyny i 7m 7.1m i 9m 9.1m i 10m 10.1m i 11m 11.1m i 12m 12.1m i 15m Dros 15m	13.37 16.39 17.07 17.39 17.88 19.13 31.09	13.78 16.90 17.60 17.93 18.43 19.72 32.05	14.05 17.23 17.95 18.28 18.79 20.11 32.69	Travel Hoist – per metre Lift Out / Lift-Hold-Launch Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m
Lansio yn unig i fyny at 7m 7.1m at 9m 9.1m at 10m 10.1m at 11m 11.1m at 12m 12.1m i 15m Dros 15m	12.36 15.15 15.79 16.10 16.55 17.69 27.98	12.74 15.62 16.28 16.60 17.06 18.24 28.85	12.99 15.93 16.60 16.93 17.95 18.60 29.42	Launch only Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m
Symud Cwch yn yr Iard fesul medr Scrwb amser cinio wedi ei disgowntio	7.24 9.53	7.96 10.48	8.11 10.68	Yard Movement per m Discounted lunchtime scrub

Ffioedd – Hafan Pwllheli – Fees 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21	Prices exclude VAT
Storio Storio ar y lan i berchennog doc fesul medr fesul dydd	.26	.27	.27	Storage Annual contract holders per m per day
Storio ar y lan i ymwelwyr fesul medr fesul dydd	.38	.39	.39	Non-Annual contract holders per m per day
Storio crud/ôl cerbyd i ymwelwyr fesul dydd	1.39	1.43	1.45	Storage of cradles/trailers for non contract holders per day
Llogi crud Hafan fesul dydd	1.39	1.43	1.45	Hire of marina cradle/boat stands per day
Llafur ategu	36.28	37.40	38.14	Shoring labour charge

Ffioedd – Hafan Pwllheli – Fees 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	2018/19	2019/20	2020/21 -20%	Prices exclude VAT
Llithriad - Uchafrif 80 cwch fesul cwmni - Uchafrif 6 cwmni	3054.17	3148.85	2500.00	Slipway – Maximum 80 vessels per company - Maximum 6 companies
Trydan ar y lan Perchennog doc blynyddol Defnydd dyddiol (cynnwys TAW) Peiriant pŵer dros dro Unedau ar gost fel arddangos yn y dderbynfa	Cynwysedig Included 2.93	Cynwysedig Included 3.02	3.08	Electricity onshore Annual contract holders Daily charge (inc VAT) Intermittent use for power tools Units used at unitary rates as displayed in reception.
Hwyllo Sych - Cwch Short 1tf o Fai - 30 o Dachwedd fesul lansio neu codi: 1720/707/J80 Cwch “Dragon” fesul lansio neu fesul codi	900.42 60.83	928.33 62.71 83.33	946.89 63.96 84.99	Dry Sailing – Sports Boat 1 st May - 31 st October per launch or per lift :1720/707/J80 “Dragon” per launch or per lift out
Tir yr Hafan fesul m² (dim TAW)	6.04	6.22	6.34	Land rental per m² (No VAT)
Wal y Marina tros nos fesul medr (cychod pysgota masnachol yn unig)	2.35	2.41	2.45	Marina wall berthing per m per night (commercial fishing vessels only)
Ffioedd glanio pysgod	2.35	2.41	2.45	Fish landing fees
Disel fesul lityr – cychod pleser	Pris y farchnad Market price	Pris y farchnad Market price	Pris ar y pwmp/pump price	Diesel per litre- leisure craft
Disel Coch fesul lityr	+0.02c	+0.02c	Pris ar y pwmp/pump price	Red Diesel per litre

Ffioedd - Harbwr Allanol Pwllheli Outer Harbour -Fees – 2020/21

Prisiau yn eithrio TAW	Ffi leol Local 2019/20	Eraill Other 2019/20	Ffi leol Local 2020/21	Eraill Other 2020/21	Prices exclude VAT
Ffi angorfa fesul medr					Mooring per meter
Ardal 1 – Rhif Angorfa 01	55.10	74.47	56.20	75.95	Area 1 – Mooring Numbers 01
Ardal 2 – Rhif Angorfa 01- 13	67.68	90.48	69.03	92.28	Area 2 – Mooring Numbers 01- 13
Ardal 3- Rhif Angorfa 13 -34 (lleiaf hyd 7m)	129.29	139.81	131.88	142.60	Area 3 – Mooring Numbers 13- 34 (min 7m)
Ardal 3 – Rhif Angorfa 13 – 34 (Pysgotwyr Llawn amser yn unig)	69.59	125.82	70.98	128.33	Area 3 - Mooring Numbers 13 -34 (Full time Fishermen only)
Ardal 4 – Rhif Angorfa 01–10	15.30	15.98	15.60	16.29	Area 4 – Mooring Numbers 01–10
Ardal 5 – Rhif Angorfa 01–10	72.76	98.38	74.21	100.34	Area 5 – Mooring Numbers 01–09
Wall yr Harbwr Llwytho/dadlwytho neu aros dros nos - fesul medr	2.27	2.27	2.31	2.31	Quay Wall Unloading/Loading or overnight stay - per metre
Compownd Diogel (llai 40% pysgotwyr Bona fida cofrestredig llawn amser yn unig-gwelir diffiniad)	726.76	734.05	741.29	748.73	Secure Compound (less 40% for registered Bona fida full time fishermen only-see definition)

Compound-discount applied to bona fida fishermen with annual mooring in Pwllheli. Compound License Holder must also be the skipper of the Fishing Vessel.

Ffioedd Lansio a Cofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

01/04/2020 – 31/03/2021



Ffioedd yn cynnwys TAW / Fees inclusive of VAT

Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)	2020/21	Renewal Fees (Small Permits)
Ail-cofrestru Blynyddol	£35.00	Annual Re-registration
Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)		New Vessel Applications (Large and Small Permits)
Cofrestru Blynyddol (cofrestru am tro cyntaf neu ble mae angen rhifau cofrestru newydd)	£45.00	Annual Registration (first time registration or where new large permits are required)
Ffi Lansio		Launching Fees
Lansio Dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinno	£15.00	Daily Launch – General Slipways/Beaches
Lansio Dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys ffi parcio)	£20.00	Daily Launch – Morfa Bychan Beach (includes parking charges)
Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) <u>Yn cynnwys ffi cofrestru</u>	£150.00	Annual Launching Permits (1 April – 31 March) <u>Inclusive of registration fee</u>
Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli. In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.		
Trosglwyddo / Aiddodiad		Transfer / Replacement
Ceisiadau drwy'r post yn unig i <u>Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli</u>	£45.00	Postal application only to the <u>Council Maritime Office in Pwllheli</u>
Cychod llai na 10 HP (Dim Ffi Lansio)		Vessels under 10 HP (No Launch Fee)
Ffi Cofrestru Blynyddol – <u>Ceisiadau Mewn Person yn Unig</u> Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	£30.00	Annual Registration Fee – <u>In Person Application Only</u> At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection

Tud. 27

Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Mawrth 2020
Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to March 2020


Tud. 28





Tud. 29


Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year




Hyd at Chwefror 2020

To February 2020

Cyfanswm medr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels








Hyd at Chwefror 2020

Up to February 2020

Tud. 30





2011 2012 2013 2014 2015 2016 2017 2018 2019

Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth

Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Wedi gwerthu cwch/sold boat	12	20	7	13	9	9	11	10	10
Ardal newydd/New Cruising Ground	12	26	8	7	5	8	3	2	4
Parcio a lansio/Park and Launch	2	0	3	4	1	2	0	0	0
Dim rheswm/No reason given	24	17	16	14	2	13	8	2	4
Rhu ddrud/Too expensive	2	3	1	1	3	0	0	0	0
Methdalwr/Bankrupt	0	2	2	0	1	0	0	0	0
Iechyd/ill health	8	4	8	2	4	9	3	2	1
Blwyddyn allan/Year out	5	3	5	2	2	0	0	0	2
Carthu/Dredging	8	4	0	0	1	0	0	0	0
Cyfanswm/Total	0	79	50	43	28	41	41	16	21

Hyd at Chwefror 2020
Up to February 2020







Tud. 32



Ystadegau Blynyddol Harbwr Pwllheli - i Chwefror 2020

Annual Statistics for Pwllheli Harbour - to February 2020

Nifer o Gychod Blynyddol - Number of annual Resident vessels







Tud. 34

Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth
Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March

	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Wedi gwerthu cwch/sold boat	3	4	0	2	0	0	1	
Ardal newydd/New Cruising Ground	0	0	17	1	0	0	0	
Parcio a lansio/Park and Launch	0	0	0	0	0	0	0	
Dim rheswm/No reason given	0	0	12	2	0	0	0	
Rhu ddrud/Too expensive	0	0	0	0	0	0	0	
Methdalwr/Bankrupt	0	0	0	0	0	0	0	
Iechyd/Ill health	0	0	0	1	0	0	0	
Blwyddyn allan/Year out	0	0	0	0	1	0	0	
Carthu/Dredging	0	0	0	0	0	0	0	
Cyfanswm/Total	3	4	29	6	1	0	1	

Hyd at Chwefror 2020
 Up to February 2020



Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	17 Mawrth 2020
TEITL	Diweddariad Carthu
AWDUR	Swyddog Morwrol

Diweddariad ar y materion yn ymwneud â'r gwaith Carthu yn Harbwr Pwllheli

1. **Arolwg Hydrograffeg** - Cynhaliwyd arolwg Hydrograffeg manwl yn yr harbwr yn ystod yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth 2020. Cynhaliwyd yr arolwg gan ddefnyddio dau ddull; Arolwg Drôn Awyrol a chwch arolwg bychan ar y dŵr. Bu i'r ddau ddull ddarparu arolwg manwl fydd yn galluogi'r Cyngor i bennu'r lefel croniant yn ardal yr harbwr ers i'r arolwg diwethaf gael ei gynnal.

Bydd copi print o'r Arolwg Hydrograffeg ar gael i'w archwilio yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Harbwr ac mae copi electronig ar gael i bawb ar gais. Mae'r data sydd ar gael yn yr arolwg hydrograffeg ar ffurf Seilnod Siart a Seilnod Ordans. Nodir bod y sianel ym mynedfa'r harbwr wedi culhau.

2. **Y Grwyn Preseb (Crib Groyne)** - mae'r gwaith ar ailadeiladu'r Grwyn Preseb ac ymestyn rhan o'r Grwyn Preseb yn bwrw ymlaen yn dda ac fe ddylai'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod cyfnod y contract. Mae cost y gwaith dros £230k.

Bu i Storm Ceira, ac i raddau llai, Storm Dennis, effeithio ar flaendraeth Marian y De ac o ganlyniad, bydd angen mwy o gerrig amddiffyn ar gyfer rhan y Grwyn Preseb sy'n wynebu'r môr. Mae'r gofyniad ychwanegol hwn am gerrig amddiffyn yn sgil enciliad yn lefelau'r traeth.

Yr amcangyfrifon cychwynnol yw y bydd angen oddeutu 80 tonnell ychwanegol o gerrig. Bydd y rhain yn dod o Chwarel Minffordd yn yr un modd â'r cerrig amddiffyn presennol.

3. **Pentwr Stoc Tywod** - ar 6 Mawrth 2020, bydd gwaith wedi mynd rhagddo i waredu tywod o'r pentwr stoc a'i ddefnyddio i ailgyflenwi Traeth Crugan. Rhagwelir y bydd y gwaith hanfodol hwn yn cymryd oddeutu 5 i 6 wythnos i'w gwblhau. Disgwylir y bydd yr holl ddeunydd a garthwyd yn flaenorol, a'r deunydd a storiwyd, yn cael ei gludo'n uniongyrchol i Draeth Crugan.

Ariannwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen amddiffynfeydd môr a bydd y gwaith hefyd yn sicrhau, ynghyd â chryfhau'r blaendraeth yn Nhraeth Crugan, y bydd y gwaith o ailgyflenwi traethau hefyd yn sicrhau bod capasiti ychwanegol ar gael ar gyfer storio deunydd sydd wedi'i garthu ar y safle hwn am y blynyddoedd nesaf, oni bai y cytunir ar opsiynau amgen.

4. **Mynedfa'r Harbwr** - disgwylir i'r gwaith o garthu mynedfa'r harbwr gael ei wneud ym mis Ebrill 2020, yn ystod y llanw mwyaf priodol. Mae'r Uned Forwrol wedi ystyried y posibilrwydd o wneud y gwaith hwn yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Mawrth 2020, ond bu i amgylchiadau olygu nad oedd modd caffael y gwaith. Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu diweddarau ar y gwaith sydd wedi'i raglennu, cyn gynted ag y deir i gytundeb ar contract.

Nodir bod y stormydd diweddar wedi dod â deunydd ychwanegol i fynedfa'r harbwr ac i'r sianel fordwyo.

5. **Carthu Cynnal a Chadw** - Mae dogfennau'r contract yn cael eu paratoi er mwyn cynnal y gwaith carthu cynnal a chadw ym masn y Marina a'r Sianel Ddynesu yn y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020. Mae'r Uned Forwrol yn gwneud gwaith ar y lagŵn ddistyllu ar hyn o bryd er mwyn pennu'r union gapasiti. Gobeithir y bydd y gwaith carthu ym Mhwllheli yn cael ei wneud ar y cyd â'r contract carthu yn Noc Fictoria.
6. **Lagŵn Ddistyllu** - gwaith yn parhau i gael ei wneud ar ddulliau amgen o ddyddodi'r gwaddodion o'r Lagŵn Ddistyllu. Mae'r ffensys diogelwch wedi cael eu hamnewid yn rhannol ac fe ragwelir y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y ffens ddiogelwch yn ystod 2020.